



## **Enw'r Polisi:** Polisi Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

### **Rhif y Polisi:** DISG 24 . Polisi Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith

#### **Polisi Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith 2024**

##### Datganiad

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i gefnogi ein dysgwyr, drwy ein rhaglen Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus gyda'u haddysg a'u llwybr gyrfa. Mi fydd y rhaglen yn darparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfa annibynnol a diduedd i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 7 i 13 er mwyn eu grymuso i gynllunio a rheoli eu dyfodol eu hunain.

##### Amcanion

Rydym yn ymroddedig i:

- Godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd sydd ar gael i'r dysgwyr
- Grymuso dysgwyr i wneud dewisiadau gyrfa effeithiol ac i reoli eu dyfodol eu hunain
- Godi cymhelliant a dyheadau dysgwyr
- Baratoi'r dysgwyr drwy wella eu sgiliau a'u hagweddau sydd angen ar gyfer cyflogadwyedd
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a herio stereoteipiau
- Sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad cyfartal at gyngor a chyfarwyddyd gyrfa diduedd gan ffynonellau allanol.

Fe gyflawnir hyn fel rhan o bolisi cyffredinol ar gyfer Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith drwy gwricwlwm yr ysgol gan gynnwys cyfnodau chofrestru, ABaCh, meysydd dysgu a themâu drawsgwricwlaidd yn unol a'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn gysylltiedig â pholisiau eraill yr ysgol gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14 – 19, addysgu a dysgu, addysg

personol a chymdeithasol, cyfle cyfartal, anghenion addysgol ychwanegol a Chytundeb Partneriaeth yr ysgol gyda Gyrfa Cymru.

Bydd cyfarfod adolygu blynyddol yn cael ei gynnal, a hynny fel arfer cyn cyfarfod adnewyddu'r cytundeb partneriaeth â Gyrfa Cymru.

### Cyfrifoldebau

#### **Y Corff Llywodraethol**

- penodi aelod o'r bwrdd llywodraethu a fydd â diddordeb strategol mewn addysg gyrfaoedd ac yn annog ymgysylltiad cyflogwyr
- darparu cyngor ac arweiniad clir y gall yr ysgol seilio cynllun gyrfaoedd strategol arno sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a chytundebol
- sicrhau bod arweiniad gyrfaoedd annibynnol yn cael ei ddarparu i'r disgyblion drwy gydol eu haddysg uwchradd (11 i 18 oed) a bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n ddiduedd, yn cynnwys ystod o opsiynau addysgol neu hyfforddiant ac yn hyrwyddo buddiannau gorau disgyblion
- sicrhau bod ystod o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn gallu cael mynediad i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 8 i 13 i'w hysbysu am gymwysterau addysg dechnegol a phrentisiaethau cymeradwy
- sicrhau bod manylion rhaglen yrfaeodd ein hysgol ac enw'r arweinydd gyrfaoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol
- sicrhau bod trefniadau yn eu lle i'r ysgol gwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer cyflwyno Addysg Gyrfaoedd yn yr Ysgol

#### **Uwch Dîm Rheoli**

- cynllunio strategol o blaenoriaethau Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ar y cyd ag arweinwyr pwnc;
- cefnogi adrannau unigol drwy gyfarfodydd rheoli llinell;
- sicrhau bod y cynllun ar gyfer gwella ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i Addysg Gyrfaoedd a bod strwythurau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r blaenoriaethau hyn;
- monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol drwy weithgareddau fel arsylwadau gwersi, edrych ar lyfrau ac adolygiadau adrannol

#### **Cydlynnydd Gyrfau    Gwyneth Rees**

- Cynllunio a rheoli gweithgareddau gyrfau yn yr ysgol.
- Rheoli cyllideb Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith.
- Gweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Gyrfau i gynllunio, trefnu a monitro ein rhaglen.
- Cefnogi penaethiaid adran, athrawon pwnc, penaethiaid blwyddyn, tiwtoriaid, a'r cydlynnydd ABaCh i adeiladu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Gweithio'n agos gyda'n Cydlynnydd AA i nodi pa arweiniad sydd angen ar ein holl disgyblion ag anghenion arbennig a rhoi cymorth personol iddynt gan gynnwys cynlluniau pontio.

- Sefydlu a datblygu a cysylltiadau gyda chyflogwyr, darparwyr addysg gyrfaoedd a sefydliadau addysg allanol.

### **Cynghorydd Gyrfaoedd      Lowri Foulkes**

Prif rôl Cynghorydd Gyrfaoedd ydy darparu cefnogaeth ddiuedd a phroffesiynol i unigolion a chydlynu ystod o wasanaethau tîm Gyrfa Cymru ar gyfer yr ysgol.

Bydd y gwasanaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar anghenion tymor byr a hirdymor dysgwyr gan ganolbwyntio ar:

- ehangu gorwelion
- codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad lafur fodern
- datblygu'r sgiliau ar gyfer cynllunio gyrfa yn y tymor byr a'r tymor hir mewn pwyntiau pontio allweddol ar gyfer disgyblion sydd ei angen.

Bydd ei gwaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnig cymorth i bob dysgwr a fydd yn cael ei wahaniaethu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Gyda'r disgyblion yn cael eu dyrannu i un o bedwar categori o gefnogaeth, gan sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio yn unol ag anghenion cwsmeriaid:

- Cymorth cyffredinol i'r bobl ifanc iddynt wedyn hunan-helpu drwy'r llwyfannau cyfryngau digidol a chymdeithasol gan gynnwys mynychu sesiynau grŵp.
- Cefnogaeth Gwirio Gyrfa - cefnogaeth un i un i'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod angen arweiniad a chymorth hyfforddi.
- Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol - cymorth un i un i'r bobl ifanc hynny y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Gweler y dudalen isod am fanylion mwy penodol.
- Cyflwyniadau opsiynau ôl 16 i bl.11 yn ystod tymor 1
- Mynychu nosweithiau rieni bl.9 ac 11.

### **Staff**

Disgwylir i bob aelod o staff gyfrannu at y gwaith o gyflwyno Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith drwy eu rolau fel penaethiaid blwyddyn, penaethiaid adran, athrawon, tiwtoriaid a staff cymorth.

### **Gofynion statudol a dulliau cyflawni**

Dylai cwricwlwm ysgol alluogi'r disgyblion i ennill profiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â gyrfa a'r byd gwaith fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu llwybr gyrfa. Gyda hyn rhaid i'r rhaglen Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith Gyrfaoedd ymgorffori gweithgareddau priodol i'w hoedran a'u datblygiad ac ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mi fydd ein rhaglen wedi ei seilio ar:

- Rhaglen Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith wedi ei gynllunio gan y Cydlynnydd Gyrfaoedd drwy weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, Unifrog a sefydliadau allanol eraill.
- Cyfraniad ac ymrwymiad bob un athro o'r adrannau pwnc gan gynnwys cynllunio a darparu gweithgareddau gyrfaoedd a byd gwaith i'r disgyblion o fewn eu meysydd llafur ac at y pedwar diben Cwricwlwm i Gymru.
- Cyfraniad ac ymrwymiad pob pennaeth blwyddyn a thiwtor cofrestru i gynnig arweiniad, cyngor gyrfa diduedd i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 7 i 13 yn ystod cyfnod cofrestru boreol.
- Cydweithio gyda Cydlynnydd Addysg Bugeiliol a Chymdeithasol yr ysgol er mwyn defnyddio diwrnodau ABaCh yr ysgol ar gyfer gweithgareddau gyrfau a'r byd gwaith.
- Sesiynau Gyrfa Cymru gyda grwpiau o ddisgyblion penodol megis opsiynau bl.9 ac ôl 16.
- Sefydlu a defnyddio cysylltiadau a sefydlwyd eisoes i wahodd cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch ac asiantaethau eraill i gyfrannu i'r rhaglen.
- Hysbysebu rhieni/gofalwyr drwy Weduc o unrhyw webinars, digwyddiadau gyrfau yn yr ysgol ac i gydnabod y rôl bwysig sydd gan rieini/gofalwyr yn natblygiad gyrfau eu plant
- O ran Cyfleon Cyfartal mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod holl arferion gweithredu, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn ddiragfarn o ran rhyw, crefydd, hil neu anabled.

#### Monitro, Adolygu a Gwerthuso Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith

Arfarnir gweithgaredd sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith a defnyddir yr wybodaeth i helpu gyda'r gwaith cynllunio am y flwyddyn i ddod. Defnyddiwn cymysgedd o ffurflenni adborth, a grwpiau ffocws (e.e. gyda grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion Blwyddyn 12 ar ôl profiad gwaith). Cesglir adborth staff trwy ffurflenni adborth a rhoddir ar agenda cyfarfodydd academiaidd/bugeiliol i hybu trafodaethau a monitro. Adolygir y polisi pob dwy flynedd.

#### Adnoddau

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddyrannu adnoddau addas ar gyfer Addysg Gyrfaoedd gan gynnwys cyllideb ariannol e.e. ar gyfer llungopïo taflenni gwaith i'w defnyddio amseroedd cofrestru. Hefyd mae'r ysgol yn talu tanystrigiad blynnyddoedd i gael defnyddio y plattform Unifrog.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol staff fel eu bod yn medru cyfrannu i gyflwyno Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith yn eu gwersi yn unol â'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru fel thema drawsgwricwlaidd. Rhoddir arweiniad yn ystod diwrnodau HMS a chyfnodau cyfnosi. Hefyd mae'r ysgol yn sicrhau hyfforddiant i bob aelod o staff fel eu bod yn medru defnyddio adnoddau Unifrog gyda'u dosbarthiadau dysgu a grwpiau cofrestru.

Deunyddiau ystafell ddosbarth yn cynnwys taflenni Gyrfa Cymru; hysbysfyrddau ac arddangosfeydd gyrfaedd o gwmpas yr ysgol; llyfryn dewis opsiynau bl.10, prosbectws trydyddol ac adnoddau penodol ar gyfer cyfnodau cofrestru e.e. cyflwyniadau busnes a thafleuni gwaith Unifrog.

### Dulliau cyflawni

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno rhaglenni Gyrfaedd a Phrofiadau Byd Gwaith i'r disgyblion, mae rhain yn cynnwys:

### **CA3**

Taflen myfyrio diwedd bl.7  
Ffair Nadolig bl.7 mentergarwch  
Cefnogaeth a gwybodaeth i helpu dewis opsiynau CA4  
Cyflwyniad opsiynau gan Gyrfa Cymru i bl.9

### **Blwyddyn 10**

Gweithgareddau Diwrnod Cam i'r Dyfodol  
Gweithgareddau gwefan Gyrfa Cymru ac Unifrog e.e. cwisiau ac ysgrifennu CV  
Gweithdy ysgrifennu CV  
Siaradwyr gwadd

### **Blwyddyn 11**

Cyfweliadau ffug  
Cyflwyniad opsiynau ôl 16 gan Gyrfa Cymru  
Gweithgareddau Dewisiadau ôl 16 e.e gwersi blasu, sgysiaiu gyda disgyblion trydyddol  
Ffair Gyrfa  
Noson agored Trydyddol a Prosbectws Trydyddol  
Ymweliad Coleg Cambria a cymorth i wneud ceisiadau  
Cwisiau Paru Swyddi gwefan Gyrfa Cymru ac Unifrog.  
Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith  
Sesiynau grŵp gyda'r Cynghorwr Gyrfaedd  
Dosbarthiadau meistr Seren

### **Blwyddyn 12 ac 13**

Gweithdy ysgrifennu CV  
Cyfweliadau ffug  
Dosbarthiadau meistr Seren  
Cyflwyniad opsiynau ôl 18  
Ffair UCAS a Ffeiriau Gyrfa  
Cwisiau Paru Swyddi gwefan Gyrfa Cymru ac Unifrog.  
Cynlluniau/opsiynau cyrchfan  
Cais UCAS

Gweithgareddau Unifrog  
Cynlluniau/opsiynau cyrchfan (rhan o'r Bagloriaeth Uwch)  
Siaradwyr o wahanol brifysgolion  
Diwrnod agored Caergrawnt  
Profiad Gwaith

Mae cyfweiliadau gyda'r Cynghorydd Gyrfau yn cael eu trefnu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10 – 13 yn unol a chanlyniadau Gwirio Gyrfau a chyngor PB – targedir disgyblion sydd ar ddatganiad neu o bosib yn NEETS a byddant yn cael eu monitro (rhan o Cytundeb Partneriaeth yr ysgol gyda Gyrfau Cymru).